

Map trywydd Donaldson / Furlong.



Roedd digwyddiad CGA eleni, **Siarad yn Broffesiynol**, a siarad yn broffesiynol, yn ysgogol, yn graff ac yn peri rhwystredigaeth. Rhoddodd yr Athro Donaldson a'r Athro Furlong ill dau grynodedau da o'u hadroddiadau ar y cwricwlwm ac AHCA fel ei gilydd ac roedd optimistaeth amlwg o du'r ddau ynghylch y sefyllfa sydd ohoni yng Nghymru. Mae eu hanerchiadau, a'u hadroddiadau wedi'u croesawu gan y proffesiwn ac am unwaith mae'n ymddangos bod consensws bod angen newid radical os ydyn ni am greu system addysg sy'n addas ar gyfer y cenedlaethau nesaf o ddysgwyr.

Yn y cwestiynau a ddilynodd, nododd John Furlong mai cyddigwyddiad oedd hi bod y ddau adroddiad a'r ddau athro wedi rhannu llwyfan mor amlwg yr un pryd ac na fu unrhyw 'Gynllun

Mawr'. Whiw! Lwc dda am hynny te - dau athro o fri gyda safbwyntiau tebyg iawn, yn cyfleu neges gyson at y dyfodol. Mewn llawer ffordd nid cyddigwyddiad oedd hi; mae gan y ddau hanes cadarn o adolygu systemau addysg mewn mannau eraill ac roedd eu hegwyddorion sylfaenol yn golygu nad oedd risg uchel yn hynny o beth. O'r ddau, Adroddiad Donaldson sy'n peri'r her fwyaf oherwydd bod cynifer o argymhellion y penderfynodd y Gweinidog cyn eu derbyn yn eu cyfanrwydd (sydd naill ai'n arwydd anferthol o hyder yng ngallu'r proffesiwn addysgu i gyflawni'r rhain i gyd neu ychydig bach o gyfleustra gwleidyddol i Weinidog oedd ar fin ymadael i osgoi craffu dyfnach i oblygiadau ymarferol rhai o'r argymhellion).

Felly pam y rhwystredigaeth? Yn rhannol oherwydd bod llawer o'r pwyntiau a wnaed (fel yr angen am ddysgu a datblygiad proffesiynol (DDP) cyson, cydlynol a pharhaus wedi'u gwneud o'r blaen heb unrhyw gamau dilynol i'w hategu. Mae tri dylanwad polisi ar athrawon:

1. *Rheidrwydd proffesiynol* (sef yr hyn y **dylech** ei wneud). Safbwynt Furlong a Donaldson fel ei gilydd oedd bod angen y newid er budd y disgyblion a bod modd cyfiawnhau'r rhesymau o safbwynt addysgol ehangach. Felly **dylai** athrawon gyflawni lefel gradd Meistr adeg cymhwyso; **mae** angen newid radical er mwyn sicrhau'r fantais fwyaf; ac mae gwerthoedd **dysgu** yn fwy na'r rhai y gellir eu mesur yn hawdd.
2. *Rheidrwydd gwleidyddol* (sef yr hyn mae'n **rhaid** i chi ei wneud). Porwch nôl dros iaith 20 pwynt Leighton Andrews pan aeth ati i 'ddefro system oedd yn gorffwys ar ei bri' (Chwiliwch amdano ar Google a'i ddarllen eto. Mae'n sboreiddiol gweld y pwyntiau hyn bum mlynedd yn ddiweddarach). Ychydig iawn o iaith broffesiynol flodeuog a welwyd yn y neges honno. Mae tôn Estyn yn debyg; busnes yw busnes a does dim lle i liprynnod. Wedi'r cyfan, onid y llonyddwyr addysg sy'n gyfrifol am ein dal yn ôl dros yr holl flynyddoedd yma?
3. Y trydydd dylanwad yw'r mwyaf heriol a'r lleiaf tryloyw. Hwn yw'r *opsiwn arall*, yr *opsiwn pragmataidd* (sef yr hyn rydyn ni'n **mynd** i'w wneud); yr hyn mae penaethiaid ac eraill yn aml yn ei fabwysiadu pan yn wynebu grymoedd allanol dros newid. Arhoswn ni fel yr ydyn ni diolch. Ni sy'n gwybod beth sydd orau i'n hathrawon, ein disgyblion a'n rhieni. Mae hyn yn ormod yn rhy gyflym - ta beth, nid ydyn ni wedi dal i fyny gyda'r blaengaredd diwethaf eto!

Yr opsiwn pragmataidd yw'r un sy'n peri cymaint o amrywiaeth rhwng ysgolion a rhwng dosbarthiadau mewn ysgolion. Mae newid yn digwydd ar gyfradd wahanol a phan fydd y don Fecsicanaidd gyntaf o newid wedi dechrau, mae'r rhai sydd ar gefn y ciw yn dal yn sownd yn eu seddi. Pwynt pwysig a wnaed gan Graham Donaldson oedd mai **sylweddoli** nid **gweithredu** yw'r ffordd ymlaen. Yn anffodus, mae'n hawdd dweud hyn ond yn anodd ei gyflawni gydag unrhyw fath o gysondeb ar draws y system gyfan. Dylai'r system codau lliw ysgogi pob ysgol i wella ond petai'n gweithio, ni fyddai byth unrhyw ysgolion coch.

Gallwn gytuno i optimistiaeth y ddau athro ar ddiwedd y noson ac mae'n dda bod agenda wrth law i'w dilyn o ran ad-drefnu AHCA a'r cwricwlwm ysgol. Ond beth arall y gallai fod ei angen i sicrhau bod **sylweddoli'n** digwydd mewn mwy na mwyafrif bach yn unig o ysgolion yng Nghymru? Dyma rai awgrymiadau i gnoi cil arnyn nhw:

- Integreiddio a pharhau i ddiweddarau athrawon cyflenwi (well gen i'r term 'athrawon amnewid' fel y defnyddir mewn llawer o wledydd eraill) a rhoi argymhellion Ymchwiliad y Cynulliad i Waith Athrawon Cyflenwi a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr ar waith ar fyrder (<http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld10483/cr-ld10483-w.pdf>).
- Buddsoddi mewn arweinyddiaeth athrawon. Gallai hyn olygu newid diwylliant yr ysgol fel nad yw'r arweinyddiaeth dim ond yn dod o du'r rhai hynny sy'n cael eu talu i wneud y gwaith hwn. Er enghraifft, gallai ANG gynnig safbwyntiau newydd ar addysgu ac yn aml mae angen eu hannog i rannu'r rhain ag eraill.
- Adeiladu ar yr hyn mae'r MYA wedi'i ddechrau – sef mentoriaid mewn ysgolion yn gweithio gyda chydweithwyr wrth ymgymryd ag ymchwiliadau athro i edrych yn gritigol ar ymarfer.
- Creu amser i rwydweithio o fewn ysgolion a rhyngddynt (a sectorau). Mae'r manteision proffesiynol sy'n cronni wrth arsylwi ystafelloedd dosbarth, athrawon ac arweinwyr ysgol eraill yn fwy nag y gellir eu meintiol, ac yn aml maen nhw'n talu ar eu canfed yn y tymor canolig yn hytrach na'r tymor byr. Mae hyn yn anoddach nag mae'n swnio oherwydd ei fod yn gostus ac yn tynnu'r athrawon gorau, o bosibl, allan o'u dosbarthiadau. Dyma ble gallai system effeithiol o athrawon amnewid fod mor werthfawr – dod oddi ar y fainc yn yr ail hanner i gymryd yr awenau yn y dosbarth heb darfu ar bethau.
- Defnyddio'r modelau dysgu a datblygu proffesiynol cywir. Nid yw'n ddigon dweud bod angen mwy o ddatblygiad proffesiynol arnon ni. Pam na chomisiynwyd adroddiad ar DDP yn ogystal ag ar y cwricwlwm ac AHCA? Mae llawer iawn o fodelau o DDP ac nid pob un sy'n addas ar gyfer gwireddu pob blaengaredd felly mae angen i ni ddefnyddio gwahanol fodelau at wahanol ddibenion. Ar hyn o bryd, model Dysgu Proffesiynol Gydol Gyrfa (CLPL) yr Alban yw'r ffefryn, ond mae hyn yn tarddu o flynyddoedd lawer o drafod ynghylch siâp y proffesiwn addysgu gyda phob parti, gan gynnwys prifysgolion a rhan weithgar gan Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.
- Sicrhau bod newidiadau'n gynaliadwy. Rydyn ni wedi cael gormod o flaengareddau 'unigryw' sy'n pylu pan fydd cyllid yn cael ei ddargyfeirio i'r syniad newydd nesaf. Roedd yn gysur clywed gan Donaldson a Furlong fel ei gilydd nad oedden nhw wedi'u parcio ar silffoedd gwaith hanesyddol yn dilyn newid Gweinidog (wel, dim eto ta beth!)

Yn rhyfedd ddigon, nid oedd PISA, sef yr eliffant yn yr ystafell, yn bwnc trafod o bwys yn **Siarad yn Broffesiynol**. Ond mae canlyniadau PISA i Gymru ar y gorwel ac mae'n annhebygol y byddwn yn goddiwedd y gweddill yn y cymal olaf. Rydyn ni'n gwybod beth bydd yn digwydd nesaf - bydd y cyfryngau'n cynhyrfu a bydd 'rhyfeddod PISA' ar ein pennau. Y tro diwethaf, gwelwyd penawdau'n gorchuddio tudalen flaen gyfan y Western Mail yn amlygu methiant addysgu ac athrawon Cymru. Fyddwn ni i gyd mewn braw? Cyn ac ar ôl cyflwyniad CGA, cymysgodd y Gweinidog newydd gyda'r cyfranogwyr a gwnaeth argraff dda ar y rhai y bu'n siarad â nhw. Yn y cwestiynau a ddilynodd, cafodd ei chynghori droeon i 'gadw'n gadarn'. Mae angen i'r proffesiwn addysgu wneud yr un peth ac, os ydyn ni'n credu'n gryf mai'r ffordd ymlaen yw'r hyn mae Donaldson a Furlong wedi'i gynnig, mae'n rhaid i ni fod yn gyson ein cefnogaeth a mabwysiadu'r argymhellion dros y blynyddoedd nesaf yn ogystal â thros y misoedd nesaf.

Fuoch chi'n bresennol yn 'Siarad yn Broffesiynol'? Os oes gennych chi safbwynt / ymateb i'w rannu gyda ni, cysylltwch â media@ewc.wales

Yr Athro Ken Jones